

www.womansarchivewales.org

'Lleisiau o Lawr y Ffatri'

Ydyn, o'r diwedd mae lleisiau menywod fu'n gweithio mewn ffatrioedd diwydiant ysgafn ledled Cymru rhwng 1945 ac 1975 yn mynd i gael eu clywed a'u gwerthfawrogi'n iawn! Mae Archif Menywod Cymru wedi sicrhau grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i recordio hanesion llafar y menywod hyn y bu eu cyfraniad mor allweddol bwysig yn hybu economi fregus Cymru pan oedd y diwydiannau trymion traddodiadol yn dioddef cyfnodau heriol o ddirwasgiad a chrebachu.

Eisoes rydym wedi dechrau hysbysebu'r cyhoedd o fwriad y prosiect cyffrous hwn trwy ysgrifennu i bapurau newydd a chysylltu â'r cyfryngau yn gwahodd menywod y ffatrioedd i gysylltu â ni. Mewn prosiect peilot y llynedd llwyddon ni i recordio naw siaradwraig, ond i gyflawni targedau'r prosiect hwn bydd angen inni ddod o hyd i 150-200 ohonynt a chofnodi eu profiadau.

Byddan nhw'n gallu ein goleo am lawer o agweddau gwahanol am y gweithle yn y cyfnod hwn: yr amodau gwaith cyn bod rheoliadau iechyd a diogelwch yn tra-arglwyddiaethu, ac am faint eu cyflogau cyn pasio'r Ddeddf Tâl Cyfartal yn 1970. Mae storïau diddorol tu hwnt gan y menywod hyn i'w hadrodd ac mae'n holl bwysig ein bod yn gwneud hynny yn awr cyn i'r hanes fynd ar ddifancoll. Byddwn yn holi am fywyd cymdeithasol y ffatrioedd hefyd ac am natur y sgwrsio rhwng gweithwyr a'i gilydd, yn ogystal ag am faterion fel dylanwad, neu ddiffyg dylanwad, undebau llafur a chyfleoedd am hyfforddiant a dyrchafiad yn y gweithle. Oes, mae toreth o hanesion difyr gan y menywod hyn a'n braint ni fydd eu rhoi nhw ar gof a chadw.



Gweithwyr mewn ffatri ddillad ym Maesteg, 1950. Ffotograffydd: Geoff Charles, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Sut allwch chi ein helpu ni felly?

Os buoch chi'n gweithio mewn ffatri diwydiant ysgafn yn y cyfnod hwn neu os ydych chi'n adnabod rhywun a fu – hyd yn oed os mai am gyfnod byr yn unig, cysylltwch â ni a gallwn drefnu dod draw i recordio, ac os gwyddoch am ffotograffau neu ddogfennau perthnasol hoffem wneud copiâu ohonynt.

Os gwyddoch chi am ffatri y dylen ni ei thargedu i chwilio am siaradwyr – rhowch wybod i ni. Ar hyn o bryd rydym wedi llwyddo i adnabod enwau tua 230 o ffatrioedd a oedd yn weithredol yn y cyfnod hwn – rhyw 50 ohonynt yn y gogledd a'r gweddill yn y de ond mae'r mwyafrif wedi hen gau neu wedi newid perchnogion a bellach yn eiddo i gwmnïau mawr rhyngwladol.

Ar hyn o bryd mae'r Archif yn y broses o benodi dau Swyddog Maes, i'r de a'r gogledd, i ymgymryd â phen trymaf y gwaith recordio a thrawsysgrifio hwn. OND fel rhan o amodau grant y Loteri mae'n rhaid i ni ddarganfod gwirfoddolwyr i helpu gyda'r prosiect. Byddwn yn cynnal dau weithdy hyfforddiant yn y de a'r gogledd ar gyfer ein gwirfoddolwyr. Byddwn yn cyflenwi'r offer a'r dogfennau angenrheidiol a bydd modd i ni ad-dalu costau teithio. Gallwch wneud y recordio yn eich cynefin a gallwch wneud faint fynnoch chi ohonynt yn ôl eich amgylchiadau personol.

Ar derfyn y prosiect bydd yr holl ddefnyddiau yn cael eu cadw'n ddiogel yn Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol a bydd detholiadau o'r archif newydd sbon hon ar wefan yr Archif Sgrin a Sain ac ar ein gwefan ni'n hunain. At hyn byddwn yn trefnu arddangosfeydd teithiol o'r ffotograffau a'r dogfennau a gesglir..

Mae hwn yn gynllun cyffrous a phwysig dros ben. Beth am fod yn rhan ohono a'n helpu i roi llais i rai o weithwyr diwydiannol mwyaf allweddol Cymru rhwng 1945 ac 1975?

Cysylltwch â Catrin Stevens (Cydllynydd y Prosiect) ar catrin@stevens2760.freeserve.co.uk neu ar 01792 893410 os ydych chi'n gallu rhoi awr neu ddwy o'ch amser i wirfoddoli. DIOLCH YN FAWR



Teyrnged i Elaine Morgan 1920-2013



Bu farw Elaine Morgan ar Orffennaf 12fed 2013 yn 93 oed yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful. Heb amheuaeth roedd yn un o fenywod amlycaf Cymru'r ugeinfed ganrif a chefais i'r pleser digamsyniol – a'r holl hwyl a ddeilliodd o hynny – o'i galw'n ffrind i mi. Byddaf bob amser yn ei hystyried yn fraint fawr i mi adnabod Elaine. Roedd ganddi dalent enfawr: roedd ganddi ymennydd fel planed a meddwl fel raser ond yr hyn oedd fwyaf rhyfeddol am ei llwyddiannau oedd amrywiaeth ei gweithgarwch.

Roedd hi'n ddramodydd rhagorol a fu'n gyfrifol am rai o'r dramâu gorau a gynhyrchwyd erioed gan y BBC. Pwy all fyth anghofio'r ddrama arobryn, Testament of Youth, Vera Brittain? Enillodd Elaine wobwr Awdur y Flwyddyn y Gymdeithas Deledu Frenhinol am hon. Hoffais i ei chyfres ar Marie Curie hefyd.

Yna daeth ei mynediad ysblennydd i fyd gwyddoniaeth - neu yn fwy penodol i fyd damcaniaeth esblygol. Heriodd hi agwedd wrynganolig yr holl esblygiadwyr, o Darwin ymlaen. Mae *The Descent of Woman* (1972) yn llyfr gwych sy'n dryllio mythau, mae'r dadleuon yn ardderchog ac mae wedi'i ysgrifennu'n ffraeth. Daeth i'r brig yn rhyngwladol o fewn dim ac mae'n destun ffeminyddol allweddol.

Ond nid fel dramodydd nac esblygiadydd y diweddodd Elaine ei gyrfa fel awdur. Yn 2003, yn 83 mlwydd oed, dechreuodd ar ei thrydedd yrfa - fel gohebydd y tro hwn. Hi oedd y colofnydd 'Pensioner' yn y *Western Mail*. Roedd ei darnau bob amser yn ffres a meddylgar a phwy oedd yn adnabod bywydau pobl de Cymru yn well nag Elaine? Yn 2011, yn 91 oed, enillodd wobwr Colofnydd Rhanbarthol y Flwyddyn.

Mae'r Cymry, ac yn enwedig pobl de Cymru, yn falch iawn o Elaine Morgan a syniant amdani nid yn unig â chryn edmygedd ond ag anwyldeb mawr hefyd. Wrth gwrs mae pob un ohonom yn falch o'r ferch o Bontypridd – wel o Drehopcyn a dweud y gwir – (roedd hi bob amser yn fy nghywiro'n gyflym am hyn). Merch i löwr oedd hi a aeth i Rydychen a llwyddo'n eithriadol yno. Ond yr hyn yr oeddem yn ei garu fwyaf amdani oedd iddi aros yng Nghymru ac ymgartrefu yn Aberpennar. Roedd hi'n wraig a mam ac yn ferch y cymoedd.

Ar nodyn personol, dwi'n ei hystyried yn fraint imi gael adnabod Elaine a chael ei galw'n ffrind. Roeddwn wedi cwrrd â hi'n fyr yn yr 1980au pan fûm yn ceisio'i pherswadio i gymryd rhan yn y gynhadledd gyntaf a gynhaliwyd erioed ar hanes menywod yng Nghymru. Ond dechreuodd ein cyfeillgarwch rai blynyddoedd wedyn. Roeddwn wedi ei henwebu i'w hanrhydeddu â chymrodoriaeth neu radd er anrhydedd ym Mhrifysgol Morgannwg, yn enwedig gan mai dynion oedd pob un arall a gawsai'r fath anrhydedd. Felly euthum i Aberpennar i ofyn ei barn am hyn, a phan gyrhaeddais, meddai 'Dwi'n gwybod pam rydych chi wedi dod. Rydych chi eisiau i mi gyfrannu at y casgliad rydych chi'n ei olygu ar fenywod o Gymru yn ysgrifennu am yr Ail Ryfel Byd'. Wel, nid dyna pam roeddwn i yno wrth gwrs, ond roeddwn wrth fy modd i gael cyfraniad gan Elaine i'r gyfrol *Parachutes and Petticoats*. Fy ngwaith i yw achub hanes menywod yng Nghymru – hanes sydd wedi ei anwybyddu ers amser maith ac mae Elaine wedi bod yn ysbrydoliaeth fawr i mi ac wedi cefnogi fy ngwaith yn rhyfeddol. Roeddwn yn gwerthfawrogi ei chefnogaeth a'i hanogaeth yn fawr.

At hyn roedd yn aelod o Archif Menywod Cymru ac yn cefnogi gweithgareddau'r Archif yn hael. Elaine oedd siaradwraig ein Sioe ar Daith Hanes Menywod Cymru ym Mhontypridd. Roedd ei henw yn denu'r tyrafoedd.

Rwyf wedi ceisio ysgrifennu teyrnged deilwng o Elaine, yn cwmpasu ystod eang ei gweithgarwch, ond pan fyddaf yn meddwl amdani'r geiriau sy'n dod i'r meddwl bob amser yw 'Roedd hi'n berson hyfryd.'

Deirdre Beddoe, Athro Emeritws Hanes Menywod, Prifysgol Morgannwg

Bywyd nad oedd mor draddodiadol â hynny – adolygiad o *Knock 'em Cold, Kid* gan Elaine Morgan

Oeddod Elaine Morgan tan y llynedd i ysgrifennu ei hunangofiant. Mae'n llyfr difyr iawn, nid yn gymaint fel hunangofiant ond yn gyfres o sgetshis am rannau o'i bywyd. Gan iddi fyw gyhyd mae'n anorfod fod darnau o'i bywyd yn eisiau ynddo.

Ganwyd Elaine ym Mhontypridd yn 1920, ac mae rhan gyntaf y llyfr yn disgrifio bywydau ei rhieni a'u rhieni hwythau yn atgofus. Yna cawn hanes ei phlentyndod hithau, gan gynnwys anawsterau byw ar y dŵl yn yr 1930au. Yn blentyn clyfar mwynheai gwmni pedwar oedolyn yn ei chartref (trigai rhieni ei mam gyda nhw) ac fe'i hanogwyd i geisio am le yn Rhydychen – 'I was entered for Oxford rather in the way that a promising horse is

entered for the Grand National, without consulting the horse'. Yn 1939 aeth i Lady Margaret Hall i ddarllen Saesneg, i fyd cwbl wahanol i'r Rhondda, ond byd yr oedd hi wrth ei bodd ynddo mae'n amlwg.

Priododd athro ysgol - Morien Morgan - yn 1945. Am gyfnod bu'n wraig tŷ lawn amser ac yn fam i dri o feibion, nes iddi ddechrau ysgrifennu, yn y lle cyntaf yn sgrïptio ym maes newydd teledu, gan gynhyrchu sgrïptiau arobryn megis 'How Green was my Valley' (1975) a 'Testament of Youth' (1979).

Mae'n debyg fod Elaine Morgan fwyaf adnabyddus am ei llyfr poblogaidd a dadleuol 'The Descent of Woman' (1972) yn herio rhagdybiaethau a damcaniaethau awduron gwrywaidd a oedd yn seiliedig ar oedolion gwrywaidd ac a oedd yn anwybyddu menywod. Yn ddiweddarach ysgrifennodd lyfr mwy gwyddonol, *The Aquatic Ape*, a oedd yn dadlau i fodau dynol esblygu o amgylchedd lled-ddyfrol. Er bod llawer o wyddonwyr, a ffeminyddion fel fi, yn ei chefnogi, cafodd ei gwrthwynebu a'i gwatwar am ei damcaniaeth gan wyddonwyr a oedd yn ddilornus o'r ffaith fod rhyw wraig tŷ o'r Rhondda (fel y gwelen nhw hi) yn gallu beiddio herio syniadau sefydledig.

Parhaodd ei diddordeb ym maes esblygiad dynol gydol ei bywyd a mynychodd sawl cynhadledd academiaidd ledled y byd a siarad ynddynt ac i ysgrifennu ar y pwnc. Ar yr un pryd roedd yn dal i fyw yn Aberpennar (tan ei marwolaeth ym mis Gorffennaf) a chyfrannodd golofn reolaidd i *The Western Mail* nes iddi ymddeol yn derfynol yn Ionawr 2013.

Er nad hunangofiant yw'r llyfr hwn mewn gwirionedd, mae'n llawn o'r ffraethineb sy'n nodweddiadol o Elaine, ac mae'n disgrifio nifer o ddigwyddiadau ym mywyd amrywiol rhyfeddol menyw alluog tu hwnt a dreuliodd y rhan fwyaf o'i hoes mewn tref fechan yng nghymoedd de Cymru.

Knock 'em Cold Kid: Elaine Morgan, Matador, 2012, ISBN 9781780882130

Avril Rolph, Awst 2013

Dathlu Sheila Parry

Eleni bydd Archif Menywod Cymru yn dathlu safiad Sheila Parry (Davies gynt) dros hawliau menywod a chyfartaledd rhywiol drigain mlynedd yn ôl.

Ym mlwyddyn academiaidd 1952-3, gwnaethpwyd ymgais i sefydlu pwyllgor cynrychiadol yn neuaddau preswyl y menywod yn y Coleg Normal, Bangor, tebyg i'r pwyllgor cynrychiadol a sefydlwyd yn neuaddau preswyl y dynion. Sheila Davies oedd arweinydd yr ymgyrch, a gafodd gefnogaeth Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Ar ddiwedd tymor y Nadolig 1952, rhybuddiwyd Sheila gan awdurdodau'r Coleg fod ei gweithgareddau yn peryglu ei lle yno. Roedd yn ei blwyddyn olaf o hyfforddiant ar y pryd, ac felly roedd ei dyfodol cyfan yn y fantol.

Pan ddychwelodd Sheila i'r Coleg yn y flwyddyn newydd, parhaodd i ymgyrchu dros bwyllgor cynrychiadol, gyda chefnogaeth yr Undeb o hyd, a bendith ei rhieni hefyd. Cadwodd y Coleg ei addewid. Ym Mawrth 1953 diarddelwyd Sheila, ac fe fu'n rhaid iddi fynd adre i'r Rhondda. Dyma ddechrau ymgyrchu ar ei rhan hi gan Undeb y Myfyrwyr, Undeb yr Athrawon, ac Aelodau Seneddol y Rhondda hefyd.

Gyda'u cefnogaeth, cafodd yr achos gryn sylw cyhoeddus, ac yn y diwedd fe gafodd Sheila Davies orffen ei hyfforddiant - ond yng Ngholeg Hyfforddi Caerdydd. Ni chafodd ddychwelyd i Fangor. Aeth ymlaen i ddysgu, a heddiw mae'n byw yn Chorley, Sir Gaerhirfryn.

Bydd Sheila yn annerch Cynhadledd Archif Menywod Cymru eleni, ar Hydref 12-3, yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful, pan fydd arddangosfa seiliedig ar ei harchif yn olrhain ei gwaith dros hawliau menywod ym 1952-3 i'w gweld hefyd.

Elin Jones

Dirgelwch Aelod Newydd

Mae archeb sefydlog newydd o £10 wedi'i thalu i gyfrif banc yr Archif. Yr enw ar y taliad yw E.DAVIDGE. Yn anffodus nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach am y taliad hwn, felly fydd y person anhysbys hwn ddim yn derbyn ein cylchlythyr nac unrhyw ebyst. Oes unrhyw un yn adnabod yr enw anghyffredin hwn? Os felly, anfonwch ebost ataf gan na all y banc fy helpu.

Gail Allen, Trysorydd

Croesewir cyfraniad gan unrhyw un sy'n aelod i'r Cylchlythyr. Os gallwch anfon eich cyfraniad yn ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at: newsletter@womensarchivewales.org o.g.y.dd

**Dyddiad cyflwyno ar gyfer y rhifyn nesaf:
Dydd Gwener 15eg Tachwedd 2013**

Os hoffech chi gopi print bras o'r Cylchlythyr hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad e-bost uchod neu ffoniwch 01873 890540.

Mae'r Cylchlythyr hwn ar gael i aelodau ar-lein hefyd ar www.womensarchivewales.org, yn yr Adran i Aelodau.

Golygwyd y rhifyn hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens.

'Merched fel Staff a Chleifion yn Ysbyty Meddwl Dinbych'



Chwith i'r dde Pam Michael, Jill Piercy,
Catrin Stevens (a chynulleidfa werthfawrogol)

Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cyffiniau ym mis Awst tafodd hen Seilam Dinbych ei gysgod egr dros nifer o weithgareddau'r maes - o'r Lle Celf a'r rhesi o boteli moddion a'u negeseuon trist i ddrama wedi'i seilio ar nodiadau cleifion yno. Cyfrannodd Archif Menywod Cymru at y thema hon mewn sesiwn ym Mhabell y Cymdeithasau, pryd y bu Dr Pamela Michael,

arbenigwraig ar hanes iechyd ac iechyd meddwl yng Nghymru, yn trafod 'Merched fel Staff a Chleifion yn Ysbyty Meddwl Dinbych'.

Darluniodd ei sgwrs yn fyw trwy gyfrwng ffotograffau grymus, yn

cyferbynnu darluniau ffurfiol o'r staff ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a delweddau anffurfiol mwy modern o staff a chleifion yn cymdeithasu'n braf wrth fynd am dro ac ar wibdeithiau ac mewn dawnsfeydd. Dangosai hyn sut roedd yr hen seilam wedi esblygu yn ysbyty iechyd meddwl modern yn ystod 150 mlynedd ei hanes. Un sylw trawiadol a wnaeth oedd i'r ysbyty gael ei agor yn 1848 ar gyfer cleifion uniaith Gymraeg o ogledd Cymru ac o'r herwydd fod yn rhaid i'r staff fedru siarad Cymraeg. Roedd hwn yn bolisi rhyfeddol o ystyried fod hyn yn union wedi Brad y Llyfrau Gleision yn 1847. Cafodd darlith Dr Michael dderbyniad gwerthfawrogol gan y gynulleidfa o 50 oedd yn bresennol.

Yn dilyn y sgwrs gwahoddwyd aelodau'r gynulleidfa i rannu o'u hatgofion yn staff neu gleifion yno. Disgrifiodd un cyn-aelod o staff eisteddfod yr ysbyty a nododd un arall nad oedd rhai o'i chyfoedion wedi gallu mynychu'r sesiwn oherwydd bod yr atgofion yn dal yn ddirdynol heddiw. I gloi'r sesiwn darllenodd Jill Piercy, awdurdod ar fywyd a gwaith yr arlunydd a'r awdur Brenda Chamberlain, ddetholiad o ddisgrifiadau ganddi o'r cyfnod dreuliodd hi'n glaf yn Ysbyty Meddwl Dinbych. Roedd Dr Michael wedi trefnu arddangosfa ardderchog o ffotograffau o'r ysbyty hefyd, trwy garedigrwydd Archifdy Sir Dinbych. Dyma'r ail dro i AMC/WAW drefnu digwyddiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac unwaith eto bu'n llwyddiant digamsyniol. Edrychwn ymlaen yn awr at yr her o ddewis pwnc a fydd yn addas ar gyfer sesiwn gyffelyb yn Eisteddfod Sir Gâr 2014 yn Llanelli.

Catrin Stevens

No Job for a little Girl: Voices from Domestic Service – Rosemary Scadden Gomer 2013

Yn yr 1990au bu Rosemary Scadden yn gwneud gradd Meistr ym Mhrifysgol Caerdydd, trwy astudio bywydau a phrofiadau merched ifanc, rhai yn ifanc iawn, o Gymru a fu'n gweithio fel morynion yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd. Dau ddegawd yn ddiweddarach, a chan gynnwys defnydd ychwanegol a loffwyd gan gynulleidfa oedd ei darlithoedd ar y pwnc, mae wedi cynhyrchu llyfr difyr yn seiliedig ar y recordiadau a wnaeth ar gyfer ei thraethawd hir.

Yn y llyfr ceir cefndir economaidd y cyfnod ac yna, benodau ar Addysg, Hyfforddiant, Gadael Cartref, yn aml am Lundain, Amodau Gwaith ac Amser Sbâr. Addysgwyd rhai o'r merched mewn gwaith domestig yng nghanolfannau'r Llywodraeth mewn ardaloedd o amddifadedd, e.e. Jacobsdale ym Mhontypridd. Dioddefodd sawl un ohonynt, y rhai wedi'u hyfforddi yn ogystal â'r rhai a aeth yn syth i weithio, hiraeth angerddol. 'Bûm bron â thorri 'nghalon. Roeddwn yn hiraethus iawn am ddwy flynedd.' Darganfu eraill fod manteision i'w bywydau newydd: yn ymarferol: 'Roeddwn yn cael bwyd. Cefais brydau da' ac eraill llai cyfyng: 'Gwelais ochr arall bywyd: cefais weledigaeth ehangach.'

Newidiodd popeth gyda'r Ail Ryfel Byd. Dychwelodd y merched o Lundain i weithio yn y ffatrioedd, y Fyddin Dir, neu yn y Lluoedd Arfog, lle caent eu hunain droeon yn cysgu mewn cwt gyda merched o'r dosbarthiadau a fu'n cyflogi morynion gynt. Mae *No Job for a Little Girl* wedi'i ymchwilio'n fanwl ac yn gofnod darllenadwy o ffordd o fyw sydd bron mynd yn angof ond a fu'n gyffredin i filoedd o fornyion a'u cyflogwyr. Bu'n fantais iddo fod ugain mlynedd cyn cael ei gynhyrchu, gan fod hynny'n rhoi iddo olwg am yn ôl ar y cyfnod. Fel y dywed Rosemary Scadden 'mae'r cyffredin yn troi'n anghyffredin gydag amser.' [CF]

Bydd Rosemary Scadden yn siarad yng Nghynhadledd AMC/WAW ym mis Hydref.



Mae archebion yn mynd yn dda ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol a gynhelir yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful, CF47 8UB ar 12^{eg} a 13^{eg} Hydref. Dylai aelodau fod wedi derbyn y rhaglen a'r manylion archebu bellach; ac maent ar y wefan hefyd: <http://www.womensarchivewales.org/events.html>